# Sut rydym yn arolygu (y broses arolygu)

# Trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol

## Ar gyfer arolygiadau o 2024



**Mae'r arweiniad hwn ar gyfer arolygwyr yn amlinellu ymagwedd Estyn at arolygu trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol. Dylid ei ddarllen ochr yn ochr â 'Beth rydym yn ei arolygu'.**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|


**Cyflwyniad** .......... **1**

Diben y llawlyfr arolygu 'Sut rydym yn arolygu' .......... 1

Y sail gyfreithiol a'r cefndir polisi ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol .......... 1

Cefndir polisi .......... 1

**Rhan 1: Trefniadau ar gyfer ymgysylltu â darparwyr** .......... **2**

Cyflwyniad .......... 2

Egwyddorion ein gwaith .......... 2

Ein meddylfryd .......... 3

Disgwyliadau o ran arolygwyr .......... 3

Disgwyliadau o ran darparwyr .......... 4

Y Gymraeg .......... 4

Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles .......... 5

**Rhan 2: Gweithgarwch arolygu craidd – Ymagwedd at arolygiadau** .......... **5**

Yr Ystafell Arolygu Rithwir .......... 5

Y tîm arolygu .......... 6

Cysylltu â'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drefniadau trochi yn y Gymraeg cyn arolygiad craidd .......... 7

Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm .......... 8

Yn ystod yr arolygiad .......... 8

Ar ôl yr arolygiad .......... 11

Gwirio cywirdeb ffeithiol .......... 11

Sicrhau ansawdd arolygiadau .......... 11

**Rhan 3: Arweiniad ar weithgarwch dilynol** .......... **13**

Ymweliad monitro .......... 13

Tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol .......... 13

# Cyflwyniad

## Diben y llawlyfr arolygu 'Sut rydym yn arolygu'

Mae'r llawlyfr hwn yn amlinellu ein hymagweddau at arolygu trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol. Mae'n esbonio **sut** rydym yn arolygu. Mae'r arweiniad yn ddeunydd darllen hanfodol i arolygwyr cofnodol a holl aelodau eraill y tîm arolygu. Gallai fod yn ddefnyddiol i ddarparwyr hefyd i ategu eu dealltwriaeth o'r meddylfryd a methodolegau arolygu.

Dylid darllen yr arweiniad ochr yn ochr â 'Beth rydym yn ei arolygu', sy'n amlinellu'r fframwaith arolygu. Gall awdurdodau lleol a darpariaethau trochi yn y Gymraeg ddefnyddio'r arweiniad hwn i weld sut mae arolygiadau'n gweithio.

Pan fydd yr arolygiad yn nodi arfer sy'n werth ei rhannu, bydd arolygwyr yn cynnwys ciplun o'r arfer hon fel rhan o'r adroddiad arolygu. Pan fydd yr arolygiad yn nodi pryderon pwysig yn ymwneud â safonau, ansawdd y ddarpariaeth a hyfforddiant neu arweinyddiaeth a rheolaeth, byddwn yn trefnu gweithgarwch dilynol i gefnogi gwelliant. Mae arweiniad ar weithgarwch dilynol ar gael ar dudalen 14 y llawlyfr hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygiadau ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru

## Y sail gyfreithiol a'r cefndir polisi ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol

Cynhelir arolygiadau o GALIL o dan Adran 38 Deddf Addysg 1997 sy'n nodi y 'gall' Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

(PAEF) 'drefnu arolygu unrhyw awdurdod lleol, ac os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn iddo arolygu unrhyw awdurdod lleol'. Bydd arolygiad 'yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni unrhyw swyddogaeth sy'n ymwneud â darparu addysg ar gyfer (a) personau o oedran ysgol gorfodol (p'un a yw yn yr ysgol neu fel arall) neu (b) ar gyfer personau o unrhyw oedran uwchlaw neu islaw'r oedran hwnnw sydd wedi eu cofrestru fel disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod'.

Mae Adran 51 Deddf Plant 2004 yn newid Deddf Addysg 1997 fel bod 'Arolygiad o awdurdod addysg lleol yng Nghymru o dan yr adran hon yn cynnwys adolygiad o'r ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni:

- unrhyw swyddogaeth a roddwyd iddynt yn rhinwedd ei rôl fel awdurdod addysg lleol
- y swyddogaethau a roddwyd iddynt o dan adrannau 25 a 26 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu wasanaethau cymorth ieuenctid'

## Cefndir polisi

Mae'r llawlyfr arweiniad hwn yn ystyried polisïau presennol Llywodraeth Cymru.

Gellir cael mwy o wybodaeth am bolisïau Llywodraeth Cymru yn Addysg a sgiliau | Pwnc | LLYW.CYMRU

## Rhan 1: Trefniadau ar gyfer ymgysylltu â darparwyr

### Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn berthnasol ar draws ehangder ymgysylltiad Estyn ag ysgolion a darparwyr eraill. Rydym yn disgwyl i'r holl arolygwyr, gan gynnwys y rhai sydd dan gontract i Estyn a'r rhai sy'n gweithio fel arolygwyr cymheiriaid, lynu at yr egwyddorion hyn.

### Egwyddorion ein gwaith

Rydym yn disgwyl i'n harolygwyr weithio yn unol â nifer o egwyddorion allweddol. Maent:

- yn dwyn ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y disgybl tuag at unrhyw weithgarwch ac ymgysylltu
- yn canolbwyntio'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd yr addysgu a'r dysgu bob tro
- yn cymryd cyd-destun penodol y darparwr i ystyriaeth ac yn addasu eu dulliau yn unol â hynny
- yn defnyddio ystod o fethodolegau ac ymagweddau teilwredig er mwyn gwerthuso ehangder gwaith y darparwr yn gadarn ac yn deg
- yn mabwysiadu dull adeiladol sy'n sicrhau bod y rhyngweithio â'r darparwr yn brofiad dysgu proffesiynol i'w staff

Yn ystod arolygiadau, rydym yn disgwyl i arolygwyr ystyried popeth yn y dogfennau arweiniad 'beth' a 'sut' rydym yn arolygu, ond yn adrodd ar y cryfderau allweddol a'r meysydd i'w gwella yn unig.

Yn ychwanegol, bydd ein harolygwyr:

- yn sicrhau bod ein gweithgarwch a'n hymgysylltu yn ymatebol i anghenion pob disgybl
- yn sicrhau bod gwerthusiadau'n gadarn, yn ddibynadwy, yn ddilys ac wedi'u seilio ar dystiolaeth uniongyrchol
- yn sicrhau cyn lleied o ofynion ag y bo modd ar gyfer dogfennau a pharatoadau gan y darparwr
- yn cael safbwynt y dysgwyr a'r rhanddeiliaid eraill
- yn cymhwyso egwyddor cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg i'n holl weithgarwch

Mewn arolygiadau, bydd ein harolygwyr:

- yn cynnwys y darparwr yn llawn yn y broses arolygu, gan gynnwys y cyfle i'r awdurdod lleol ddewis enwebai (a ddylai fel arfer fod yn gynrychiolydd o'r awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am drefniadau trochi yn y Gymraeg)
- yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau gwella dewisol y darparwr, yn ogystal â meysydd allweddol eraill a nodwyd gan y tîm arolygu
- yn cynnwys arolygwyr cymheiriaid yn y broses arolygu

## Ein meddylfryd

Mae ymagwedd Estyn tuag at weithgarwch ymgysylltu fel a ganlyn:

- **Teg a diduedd** – mae hyn yn golygu ein bod yn gweithio i fod yn annibynnol, yn wrthrychol ac yn gytbwys. Rydym yn gadarn ac yn gyson yn ein gwaith. Rydym yn pwyso a mesur y dystiolaeth a'i harwyddocâd i gynnig barn onest, gredadwy a chywir o gryfderau a meysydd i'w gwella'r darparwr.
- **Cefnogol** – rydym yn gweithio i lywio darparwyr i roi gwelliannau ar waith sydd o fudd i ddisgyblion. Ble bynnag y bo'n briodol, rydym yn annog arloesedd ac yn cydnabod bwriadau da. Mae ein hymagwedd yn gyfeillgar ond yn broffesiynol bob amser. Rydym yn cefnogi diwygiadau addysg. Rydym yn gweithio'n galed i feithrin perthnasoedd ystyrlon â darparwyr statudol a'r sector gwirfoddol, a sefydliadau lleol a rhanbarthol.
- **Myfyriol** – rydym yn eangfrydig. Rydym yn gwrando ar ystod eang o randdeiliaid ac yn myfyrio ar eu hymatebion. Rydym yn feddylgar, yn bwyllog ac yn ofalus. Rydym yn cynllunio cyfleoedd i feddwl yn ofalus am ganfyddiadau'r arolygiad a'u trafod ag aelodau eraill o'r tîm.
- **Tryloyw** – rydym yn wybodus ac yn cyfathrebu'n glir, yn uniongyrchol ac yn gryno. Rydym yn defnyddio methodolegau arolygu effeithlon ac effeithiol i ymateb i sefyllfa unigryw'r darparwr. Rydym yn cynllunio ein hymgysylltu a'n gweithgarwch arolygu ac yn adrodd ar gryfderau a meysydd i'w gwella mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu amgylchiadau penodol pob darparwr unigol. O ganlyniad, mae ein gweithredoedd yn hybu ymddiriedaeth a pharch.

## Disgwyliadau o ran arolygwyr

Mae ein disgwyliadau o ran arolygwyr yn esbonio sut rydym yn ymgorffori ein meddylfryd trwy ein gweithredoedd. Dylai arolygwyr gynnal y safonau uchaf posibl yn eu gwaith. Rhaid i bob arolygydd fodloni'r safonau disgwyliedig o ran ymddygiad.

Wrth ymgysylltu â darparwr, bydd arolygwyr:

- yn gwrtais ac yn broffesiynol
- yn sefydlu ac yn cynnal ffiniau proffesiynol priodol wrth siarad â phlant ac oedolion
- yn gwneud eu gwaith ag uniondeb, parch a sensitifrwydd priodol
- yn cymryd yr holl gamau rhesymol i atal gorbryder gormodol a lleihau straen yn ystod gweithgarwch arolygu
- yn gwerthuso gwaith y darparwr yn wrthrychol gan ddefnyddio tystiolaeth glir a thrylwyr
- yn adrodd yn onest, yn deg ac yn ddiduedd heb ofn na ffafr
- yn cyfathrebu'n glir ac yn agored
- yn gweithredu er lles pennaf y dysgwyr
- yn parchu cyfrinachedd yr holl wybodaeth sy'n dod i law yn ystod eu gwaith
- yn ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol

Mae'n bwysig ein bod yn gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth ar sail eu heffaith, ac nid ar sail unrhyw ffafriaethau am ddulliau penodol. Yr hyn sy'n allweddol i'n gwerthusiadau yw p'un a yw'r dulliau a'r drefniadaeth yn addas at y

diben o ran cynorthwyo'r holl ddisgyblion i gyflawni safonau uchel a lefelau lles cryf.

Dylai arolygwyr roi gwybod i Estyn am unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn gynted ag y maent yn derbyn hysbysiad am ymgysylltu, er enghraifft eu bod yn rhan o dîm arolygu darparwr.

## Disgwyliadau o ran darparwyr

Er mwyn i arolygu a rheoleiddio fod yn adeiladol a buddiol, mae'n bwysig fod arolygwyr a darparwyr yn sefydlu a chynnal amgylchedd gweithio proffesiynol yn seiliedig ar gwrteisi, parch ac ymddygiad proffesiynol ar y ddwy ochr. Rydym yn disgwyl i arolygwyr gynnal Cod Ymddygiad Estyn, ond rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr:

- fod yn gwrtais ac yn broffesiynol, gan drin arolygwyr a staff cymorth arolygu â pharch
- gweithredu er lles pennaf y disgyblion
- darparu tystiolaeth – neu gael cyfle i ddefnyddio tystiolaeth - sy'n galluogi arolygwyr i gynnal yr arolygiad mewn ffordd agored, onest a gwrthrychol
- cydnabod bod angen i arolygwyr arsylwi arfer a siarad â staff, disgyblion a rhanddeiliaid eraill heb i reolwr neu uwch arweinydd fod yn bresennol
- gweithio gydag arolygwyr i gymryd yr holl gamau rhesymol i leihau tarfu, straen a biwrocratiaeth
- cynnal deialog bwrpasol gyda'r arolygydd cofnodol ac arolygwyr eraill
- tynnu sylw'r arolygwyr at unrhyw bryderon am yr arolygiad mewn modd amserol ac addas, trwy'r enwebai
- rhoi ystyriaeth briodol i iechyd a diogelwch, a lles arolygwyr tra byddant ar y safle
- cynnal cyfrinachedd cyfarfodydd a chanfyddiadau arolygu hyd nes cyhoeddi'r adroddiad yn derfynol
- sicrhau bod gan dimau arolygu fynediad at ardal breifat i drafod tystiolaeth arolygu a chynnal trafodaethau cyfrinachol
- i beidio â thynnu ffotograffau neu recordio fideos yn ystod y broses arolygu, gan gynnwys o werthusiadau drafft a ddatblygwyd yn ystod yr arolygiad

Dylid tynnu sylw'r tîm at unrhyw gamerâu cylch cyfyng ac offer recordio yn ystod y cyfarfod tîm cychwynnol.

Adeg yr hysbysiad am yr arolygiad, dylai'r awdurdod lleol adolygu cyfansoddiad y tîm arolygu. Cyfrifoldeb y darparwr yw amlygu unrhyw achosion canfyddedig neu wirioneddol o wrthdaro buddiannau cyn dechrau unrhyw ymgysylltu, er enghraifft cyn eu harolygiad ar y safle neu ymweliad interim.

## Y Gymraeg

Byddwn yn cynnal unrhyw ymgysylltu, gan gynnwys arolygiadau, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg, sydd ar gael ar ein gwefan. Bydd arolygwyr hefyd yn defnyddio ein harweiniad atodol ynghylch llythrennedd a'r Gymraeg, ble bynnag y bo'n briodol.

## Diogelu, yn cynnwys materion iechyd, diogelwch a lles

Bydd arolygwyr yn cynnal arolygiadau yn unol ag arweiniad Estyn ar arolygu diogelu. Os byddant yn sylwi ar unrhyw beth sydd, yn eu barn nhw, yn achosi perygl i ddiogelwch staff, ymwelwyr neu bobl ifanc, dylai arolygwyr rybuddio rheolwyr yn y ddarpariaeth a'r awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb am y ddarpariaeth.

Os daw arolygydd yn ymwybodol o honiad / amheuaeth ynghylch diogelu sy'n ymwneud â phlentyn, unigolyn ifanc neu oedolyn bregus, dylai ddilyn y gweithdrefnau sydd wedi'u hamlinellu yn fersiwn gyfredol 'Polisi a gweithdrefnau Estyn ar gyfer diogelu', sydd ar gael ar ein gwefan.

Ym mhob achos, dylai arolygwyr gofnodi manylion am y pryder. Dylent roi gwybod i'r Arolygydd Cofnodol (ACof). Wedyn, dylai'r ACof gysylltu ag un o swyddogion arweiniol diogelu Estyn. Bydd y swyddog arweiniol yn rhoi gwybod i'r ACof am y camau nesaf i'w cymryd, gan gynnwys beth i'w gofnodi yn sail y dystiolaeth ar gyfer y maes arolygu priodol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw risgiau'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles pobl ifanc. Bydd y swyddog hefyd yn rhoi gwybod i'r ACof p'un a ddylid rhannu'r pryder â'r awdurdod lleol ai peidio.

Lle mae'r risgiau hyn yn peri pryder difrifol yn ystod gweithgarwch arolygu craidd, dylai arolygwyr gynnwys sylw byr yn nhestun yr adroddiad ac argymhelliad yn yr adroddiad.

Byddwn yn anfon llythyr lles at y darparwr a'r awdurdod lleol, yn gofyn iddynt amlinellu sut byddant yn mynd i'r afael â'r diffyg.

## Rhan 2: Gweithgarwch arolygu craidd – Ymagwedd at arolygiadau

Gall hyd yr arolygiad a maint y tîm amrywio yn ôl nifer y darparwyr trochi Cymraeg yn yr awdurdod lleol.

## Yr Ystafell Arolygu Rithwir

Byddwn yn defnyddio system electronig o'r enw'r 'Ystafell Arolygu Rithwir' (YAR) i reoli llawer o agweddau ar yr arolygiad. System ar y we yw hon sy'n caniatáu i ddarparwyr lanlwytho gwybodaeth cyn yr arolygiad, a lawrlwytho arweiniad gennym ni ar y broses arolygu. Hefyd, yr YAR yw'r man lle gall enwebeion fynd at yr holiaduron ôl-arolygiad (HOA).

Rydym yn sicrhau diogelwch gwybodaeth sy'n cael ei lanlwytho trwy gynnal profion diogelwch ar yr YAR. Mae'r profion hyn yn gwerthuso diogelwch systemau. Rydym yn nodi ac yn cymryd unrhyw gamau i atal mynediad heb awdurdod. Mae gan holl ddefnyddwyr system YAR Estyn enw defnyddiwr a chyfrinair, sydd wedi eu cofnodi ac yn cael eu cynnal yn ddiogel o fewn cyfeiriadur gweithredol. Hefyd, mae gan y system nodweddion i sicrhau bod cyfrineiriau'n cael eu diogelu, yn cynnwys darganfod bygythiadau a mynediad amodol.

## Y tîm arolygu

Mae gwahanol rolau o fewn y tîm arolygu.

| Aelod tîm | Esboniad | Rôl |
|---|---|---|
| Arolygydd Cofnodol (ACof), gellir cyfeirio ato hefyd fel yr arolygydd arweiniol | Bydd yr ACof ar gyfer arolygiad yn un o Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (AEF).<br><br>Caiff AEF eu penodi gan y goron. Maent yn weision sifil a gyflogir yn uniongyrchol gan Estyn. | Mae'r ACof yn arwain a rheoli'r tîm arolygu. Mae'n cysylltu â'r awdurdod lleol / y ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg a'r tîm cyn yr arolygiad, ac yn sicrhau ansawdd gwaith ei dîm. Yr ACof yw'r pwynt cyfeirio cyntaf ar gyfer pawb yn ystod y rhan o'r broses arolygu ar y safle. |
| Arolygwyr Tîm (AT) | Pennir nifer yr arolygwyr tîm gan nifer y darpariaethau trochi yn y Gymraeg yn yr awdurdod lleol. Gall arolygwyr tîm fod yn AEF neu'n arolygwyr ychwanegol dan gontract sydd wedi cael eu hyfforddi gan Estyn. Mae pob un o'r arolygwyr tîm yn athrawon cymwys. | Gallai arolygwyr tîm gymryd cyfrifoldeb am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiad y tîm am wahanol agweddau ar yr arolygiad. Mae'r ACof yn cyfarwyddo a rheoli gwaith yr arolygwyr tîm. |
| Arolygydd Cymheiriaid (AC) | Mae arolygydd cymheiriaid yn uwch arweinydd mewn swydd mewn awdurdod lleol, ysgol neu ddarpariaeth trochi yn y Gymraeg sydd wedi cwblhau hyfforddiant ac asesiad Estyn ar gyfer Arolygwyr Cymheiriaid. Mae arolygydd cymheiriaid yn aelod o'r tîm ym mhob tîm arolygu. | Mae Arolygwyr Cymheiriaid hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am gasglu tystiolaeth i lywio gwerthusiadau'r tîm. Maent yn rhan annatod o'r tîm arolygu. Mae'r ACof yn cyfarwyddo ac yn rheoli gwaith yr AC. |
| Enwebai (o'r awdurdod lleol sy'n destun arolygiad) | Byddwn yn gwahodd cynrychiolydd o'r awdurdod lleol i fod yn enwebai, i weithio gyda'r tîm arolygu. Mae'r enwebai yn gyswllt rhwng y darparwr a'r tîm arolygu. | Gall darparwyr fynd at yr arweiniad i enwebeion ar baratoi ar gyfer yr arolygiad trwy ddolenni o fewn y ffurflen cyswllt cychwynnol (FfCC), wedi'i llenwi gan y Cydlynydd Arolygu (CydAr), ac sydd ar gael trwy'r YAR. |

**Cysylltu â'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am drefniadau trochi yn y Gymraeg cyn arolygiad craidd**

Bydd yr awdurdod lleol yn cael 15 diwrnod gwaith o rybudd am arolygiad craidd.

Bydd y cydlynydd arolygu yn ffonio'r awdurdod lleol i wneud y trefniadau ar gyfer yr arolygiad. Yn ystod y drafodaeth hon, bydd y cydlynydd arolygu:

- yn esbonio diben yr arolygiad ac yn trafod rhaglen amlinellol ar gyfer yr arolygiad
- yn trafod y wybodaeth benodol sydd ei hangen cyn yr arolygiad a gwneud y trefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth yn electronig trwy'r Ystafell Arolygu Rithwir
- yn gofyn a oes unrhyw faterion neu risgiau y dylai'r tîm fod yn ymwybodol ohonynt, ac yn gofyn am sesiwn friffio gyffredinol i'r tîm ar ddechrau'r arolygiad yn ymwneud ag iechyd a diogelwch
- yn canfod a yw'r darparwr yn dymuno cael enwebai ac, os ydyw, yn cytuno ar rôl yr enwebai ac yn esbonio'r broses ar gyfer cwblhau arweiniad yr enwebai
- yn darparu dolenni ac arweiniad ar gyfer llenwi'r gyfres o holiaduron cyn-arolygiad ar-lein (e.e. disgyblion, rhieni, staff, ac ati)
- yn sicrhau bod gweithdrefnau cytûn i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon neu gŵynion a all godi yn ystod yr arolygiad
- yn trefnu bod athrawon a staff cymorth o fewn y canolfannau trochi yn y Gymraeg yn cyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu
- yn trefnu bod penaethiaid ysgolion lle mae disgyblion wedi'u cofrestru yn cyfarfod ag arolygwyr yn ystod y cyfnod arolygu
- yn gwneud unrhyw drefniadau domestig, fel ystafell sylfaen ar gyfer yr arolygwyr, parcio a mynediad i'r rhyngrwyd ar draws pob safle, lle bo'n briodol
- yn gwneud trefniadau ar gyfer adrodd yn ôl ar ganfyddiadau'r arolygiad
- yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer llenwi'r holiaduron ôl-arolygiad (HOA)
- yn rhoi gwybod i'r darparwr yn ysgrifenedig, drwy'r ffurflen cyswllt cychwynnol, am drefniadau allweddol yr arolygiad

Bydd y Cydlynydd Arolygu yn gofyn am wybodaeth gan y darparwr drwy'r Ystafell Arolygu Rithwir cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr hysbysiad ffurfiol am yr arolygiad:

- gwybodaeth gefndir allweddol, e.e. enwau staff a gwybodaeth am eu rolau a'u cyfrifoldebau
- manylion am leoliad yr holl ddarpariaethau trochi yn y Gymraeg a darparwyr sy'n manteisio ar gymorth ar gyfer trochi
- manylion am nifer y disgyblion sy'n mynychu pob darparwr, lle bo'n briodol
- copi o'r cynllun datblygu neu'r cynllun gwella diweddaraf
- copi o Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol
- manylion am yr amserlenni ar gyfer cyfnod yr arolygiad
- rhestr o wiriadau staff y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (SCT gynt) gyda rhifau'r, dyddiad cyhoeddi a lefel y gwiriad a gwblhawyd e.e. archwiliad datgelu a gwahardd uwch

Os caiff yr arolygiad ei gynnal ar ddechrau'r flwyddyn ysgol, efallai bydd darparwyr yn dymuno rhannu samplau o waith disgyblion o'r flwyddyn flaenorol gydag arolygwyr, os ydynt ar gael. Os na all darparwyr rannu gwaith blaenorol disgyblion,

bydd arolygwyr yn ystyried y wybodaeth hon wrth drafod gwaith a chynnydd gyda staff a disgyblion.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i ddarparwyr am yr arolygiad, byddant yn cael gwybodaeth am sut i fynd at holiaduron ar-lein ar gyfer disgyblion, rhieni / gofalwyr, staff a phenaethiaid. Bydd canlyniadau'r holiaduron cyn-arolygiad yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth cyn-arolygiad ac yn cynorthwyo arolygwyr i ffurfio'u gwerthusiadau.

## Cynllunio'r arolygiad a pharatoi'r tîm

Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio'r arolygiad ac yn dyrannu cyfrifoldebau i aelodau o'r tîm arolygu, gan ystyried blaenoriaethau gwella'r darparwr ac unrhyw wybodaeth arall.

Rydym yn gofyn i ddarparwyr roi cynllun llawn o'r holl weithgareddau yn ystod wythnos yr arolygiad yn yr YAR. Bydd yr arolygydd cofnodol yn cynllunio gweithgareddau'r tîm yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd.

## Yn ystod yr arolygiad

### Y cyfarfod tîm cychwynnol

Mae'r cyfarfod tîm cychwynnol yn debygol o gynnwys:

- brîff iechyd a diogelwch gan y darparwr
- brîff gan yr awdurdod lleol am gyd-destun trefniadau'r awdurdodau lleol ar gyfer trochi yn y Gymraeg. Ni ddylai hyn bara mwy nag 20 munud
- datganiad sefyllfa byr gan yr awdurdod lleol i amlinellu blaenoriaethau strategol y darparwr a'i gyfnod datblygu presennol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg
- trafodaeth â'r awdurdod lleol (dan arweiniad yr ACof) am y blaenoriaethau gwella a nodwyd gan y darparwr a'r cynnydd hyd yma yn ei waith gwella
- trafodaeth ynghylch sut bydd arolygwyr yn gallu mynd at wybodaeth bwysig

Bydd yr ACof yn cadarnhau'r trefniadau hyn gyda'r awdurdod lleol yn ystod yr alwad Teams cyn yr arolygiad.

### Casglu ac adolygu tystiolaeth arolygu

Bydd y tîm yn cynllunio'r arolygiad fel y gallant ymdrin â'r gofynion adrodd yn y tri maes arolygu. Bydd yr ACof yn cynllunio'r gweithgarwch arolygu yn hyblyg, i ymateb i amgylchiadau unigol a phwrpasol y darparwr. Mae hyn yn golygu na fydd y gweithgareddau a gynlluniwyd mewn un darparwr efallai'n adlewyrchu'r rhai a gynlluniwyd mewn darparwr arall. Yn ychwanegol, mae arolygwyr yn adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y bydd y tîm bob amser yn ystyried popeth o fewn y meysydd arolygu ond ni fydd yr adroddiad terfynol efallai'n cynnwys pob agwedd ar y fframwaith.

Mae'r prif fathau o dystiolaeth fel a ganlyn:

- arsylwi'r addysgu a gweithgareddau eraill, gan gynnwys tystiolaeth a gasglwyd trwy deithiau dysgu
- samplau o waith disgyblion
- trafodaethau â disgyblion (cyn a chyfredol), staff, arweinwyr, rheolwyr, penaethiaid ysgolion cofrestredig y disgyblion ac eraill
- ymatebion i'r holiadur cyn-arolygiad
- tystiolaeth ddogfennol neu electronig, e.e. gwybodaeth am gynnydd disgyblion
- gwybodaeth berthnasol gan yr awdurdod lleol

Bydd y tîm yn defnyddio arsylwadau uniongyrchol o waith disgyblion, lle bynnag y bo modd, i gasglu tystiolaeth i ategu eu gwerthusiadau. Gallai arolygwyr ddewis sampl ychwanegol o waith disgyblion, os oes angen, i gefnogi eu gwerthusiadau o agwedd benodol.

Dylai darparwyr drefnu bod gwybodaeth ar gael i'r tîm arolygu am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, yn enwedig canlyniadau unrhyw brofion sgrinio cychwynnol ac asesiadau perthnasol eraill. Bydd hyn yn helpu arolygwyr i werthuso cynnydd disgyblion, i lunio barn am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion o gymharu â'u mannau cychwyn a'r ffordd y mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth o asesiadau i ddylanwadu ar eu cynllunio a'u gwersi.

Bydd y tîm yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid am y darparwr ac yn profi dilysrwydd y safbwyntiau hynny yn ystod yr arolygiad.

### Cofnodi tystiolaeth arolygu

Bydd arolygwyr yn llenwi eu ffurflenni tystiolaeth yn electronig fel rhan o system ddigidol Estyn ar gyfer casglu, coladu a chofnodi canfyddiadau'r arolygiad.

### Cyfarfodydd tîm

Prif ddiben cyfarfodydd tîm yw cytuno ar farnau cywir, dibynadwy, dilys a chyfunol. Bydd cyfarfodydd yn rhoi cyfleoedd i arolygwyr:

- profi barn yr awdurdod lleol ei hun
- trafod materion sy'n dod i'r amlwg
- nodi unrhyw fylchau yn y sylfaen dystiolaeth
- ystyried prif ganfyddiadau'r arolygiad
- ystyried argymhellion

### Deialog broffesiynol

Trwy gydol yr arolygiad, bydd arolygwyr yn ymgymryd â deialog broffesiynol gydag ymarferwyr. Gallai'r ddeialog hon gynnwys cyfarfod ag athrawon unigol i drafod eu cynllunio a'u hasesiadau o waith disgyblion. Efallai bydd arolygwyr eisiau cyfarfod â grwpiau o staff cymorth, os yw'n briodol. Efallai bydd arolygwyr yn penderfynu cyfarfod ag arweinwyr fel penaethiaid ysgolion sy'n cynnal darpariaethau trochi yn y Gymraeg, penaethiaid ysgolion cofrestredig disgyblion neu benaethiaid ysgolion sy'n derbyn cymorth peripatetig, i ddeall effaith arweinyddiaeth yr awdurdod lleol ar ysgogi gwelliannau i ddeilliannau disgyblion.

Mae deialog broffesiynol yn galluogi arolygwyr i gael tystiolaeth uniongyrchol gan ymarferwyr y gellir ei thriongli â ffynonellau tystiolaeth eraill. Bydd y ddeialog yn darparu canfyddiadau dros dro, sy'n dod i'r amlwg, ar agweddau ar sail y dystiolaeth. Gellir diwygio'r canfyddiadau hyn, wrth fyfyrio, er enghraifft ar ôl craffu ar waith disgyblion neu siarad â disgyblion neu o ganlyniad i gymedroli o fewn y tîm.

Fel arfer, ar ôl arsylwi gwers, bydd arolygwyr yn cynnig deialog broffesiynol fer gydag aelod o staff ar y dysgu a welwyd. Efallai bydd angen cynnal y drafodaeth hon yn ddiweddarach yn ystod yr arolygiad mewn rhai achosion.

Dylai prif ffocws y ddeialog broffesiynol bob amser fod ar y disgyblion, y cynnydd a wnânt yn ystod y wers a'r safonau a gyflawnir ganddynt. Dylai arolygwyr geisio canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu feysydd i'w datblygu o ran y gwaith penodol a welwyd.

O ganlyniad i natur y teithiau dysgu, ni fydd arolygwyr mewn sefyllfa i gynnig deialog broffesiynol i athrawon unigol ar ôl gweithgarwch taith ddysgu.

## Adborth ffurfiol

Ar ddiwedd y rhan o'r arolygiad ar y safle, bydd y tîm yn rhoi adborth llafar i uwch arweinwyr fel cynrychiolwyr ac uwch arweinwyr yr awdurdod lleol.

Dylai'r adborth ganolbwyntio ar brif ganfyddiadau'r arolygiad, gan gynnwys yr argymhellion. Mae'r cyfarfod adborth yn cynnig cyfle i arweinwyr a rheolwyr glywed a myfyrio ar ganfyddiadau'r tîm. Dylai'r adborth ganolbwyntio ar y cryfderau a'r meysydd i'w gwella, a'r ffactorau sy'n cyfrannu atynt, gan gynnwys yr argymhellion. Dylai'r arolygydd cofnodol esbonio wrth y darparwr y gellir egluro materion ac y gellir cywiro materion ffeithiol. Fodd bynnag, diben y cyfarfod yw bod yr awdurdod lleol yn deall canfyddiadau'r tîm arolygu yn hytrach na'u trafod.

Yn ystod yr arolygiad, bydd y tîm yn ystyried a oes unrhyw arfer effeithiol sy'n werth ei rhannu â darparwyr eraill. Yn yr achos hwn, bydd yr arolygydd cofnodol yn cynnwys ciplun o'r arfer hon fel rhan o'r adroddiad arolygu.

Yn ystod pob arolygiad craidd, bydd y tîm arolygu'n ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr awdurdod lleol. Bydd yr arolygydd cofnodol yn rhoi gwybod i arweinwyr os oes angen unrhyw weithgarwch dilynol.

Mae'r holl werthusiadau a chanfyddiadau sy'n cael eu hadrodd yn ystod arolygiad, gan gynnwys gweithgarwch dilynol, os yw'n briodol, yn rhai dros dro ac yn amodol ar gael eu safoni a'u dilysu gan PAEF. Maent yn gyfrinachol i staff a rheolwyr y ddarpariaeth. Ni ddylid eu cyfleu y tu hwnt i'r grŵp hwn, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol, hyd nes i ni gyhoeddi'r adroddiad ar ein gwefan.

## Cwynion am y broses arolygu

Os bydd yna unrhyw faterion yn ymwneud â'r broses arolygu yn gyffredinol neu ymddygiad arolygwyr unigol, yna dylai'r enwebai godi'r rhain yn uniongyrchol â'r arolygydd cofnodol, a hynny cyn gynted ag y bo modd. Ni ddylai'r enwebai aros tan ar ôl yr arolygiad; dylai godi unrhyw faterion tra bydd y tîm ar y safle. Bydd materion yn codi o bryd i'w gilydd o ganlyniad i gamddealltwriaeth ac, fel arfer, gellir datrys y rhain yn gyflym ac yn foddhaol, yn fuan wedi iddynt ddigwydd.

Ceir arweiniad ar ein gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion ar ein gwefan.

Fodd bynnag, mae rhai pethau nad ydym yn mynd i'r afael â nhw trwy ein gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion, er enghraifft cwynion neu heriau am werthusiadau neu benderfyniadau dilynol a wnaed ar ôl arolygiad neu adolygiad gan Estyn. Mae hyn oherwydd bod yr awdurdod lleol yn cael cyfle i ddarparu'r holl dystiolaeth sydd ei hangen i'r tîm arolygu lunio'i farnau yn gywir ac yn deg cyn ac yn ystod yr arolygiad.

## Ar ôl yr arolygiad

### Yr adroddiad arolygu

Mae'r arolygydd cofnodol yn gyfrifol am lunio adroddiad arolygu terfynol sy'n glir i gynulleidfa leyg, ac yn ddefnyddiol i'r darparwr.

Wrth ysgrifennu adroddiadau, dylai arolygwyr ystyried arweiniad ysgrifennu Estyn, sydd ar gael ar ein gwefan, sef www.estyn.llyw.cymru.

Byddwn yn cyhoeddi adroddiadau'n ddwyieithog lle mae ysgolion wedi gofyn i ni wneud hynny, yn unol â'n Polisi Iaith Gymraeg.

Rydym yn seilio strwythur yr adroddiad arolygu ar ein fframwaith arolygu. Byddwn yn llunio'r adroddiad o fewn graddfeydd amser statudol.

## Gwirio cywirdeb ffeithiol

Byddwn yn rhoi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol cyn ei gyhoeddi, er mwyn helpu gwirio cywirdeb ffeithiol y cynnwys. Fel arfer, bydd gan yr awdurdod lleol bum niwrnod gwaith i ystyried yr adroddiad drafft a nodi unrhyw gamgymeriadau.

Mae'r gwiriad yn canolbwyntio ar ddatrys unrhyw anghywirdeb ffeithiol yn yr adroddiad arolygu. Nid yw'n canolbwyntio ar y canfyddiadau. Ceir arweiniad pellach i ddarparwyr ar natur a chwmpas y gwiriad hwn ar ein gwefan.

## Sicrhau ansawdd arolygiadau

Rydym wedi ymrwymo i:

- ddethol, hyfforddi, briffio, cefnogi a lleoli arolygwyr yn effeithiol, gan gynnwys arolygwyr cymheiriaid
- hyfforddiant, briffio a chymorth effeithiol i alluogi'r enwebai i ymgymryd â rôl weithredol
- deialog reolaidd â'r enwebai yn ystod arolygiadau
- meini prawf a systemau cofnodi sy'n cydymffurfio ag arweiniad arolygu
- adolygu a dadansoddi tystiolaeth yn ofalus
- darparu adborth llafar clir ar brif ganfyddiadau'r tîm a'r manylion ar gyfer pob maes arolygu
- llunio adroddiadau cywir ac wedi'u cyflwyno'n dda

Fel rhan o'n gweithdrefnau sicrhau ansawdd, rydym yn gwahodd yr awdurdod lleol i lenwi holiadur ôl-arolygiad (HOA). Bydd yr holiadur ar gael yn yr YAR. Dylai'r awdurdod lleol lenwi'r rhan gyntaf o'r HOA cyn gynted ag y bo modd ar ôl yr

arolygiad ar y safle, a'i gyflwyno'n electronig i Estyn drwy system yr YAR. Gallant lenwi ail ran yr HOA ar ôl i'r adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi, eto drwy system yr YAR.

Rydym yn cymhwyso proses sicrhau ansawdd gadarn i'n holl arolygiadau. Bydd yr arolygydd cofnodol yn sicrhau ansawdd gwaith y tîm, yn y lle cyntaf. Ar ôl diwedd y gweithgarwch ar y safle, caiff ansawdd yr adroddiad a'r sail dystiolaeth eu sicrhau gan AEF profiadol na fu'n rhan o'r arolygiad, hyd yn hyn. Mae'r sail dystiolaeth lawn yn cael ei chraffu a'i chyfateb i destun yr adroddiad er mwyn sicrhau bod y ddau ohonynt yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae'r broses sicrhau ansawdd hefyd yn ystyried priodoldeb y lefel gweithgarwch dilynol a'r argymhellion sy'n deillio o'r arolygiad. Fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd, gallai argymhellion gael eu diwygio, eu dileu neu eu hychwanegu.

Yna, ceir proses safoni pellach. Bydd y cyfarwyddwyr cynorthwyol priodol yn craffu ar y sail dystiolaeth a'r adroddiad. Pa bryd bynnag y bydd arolygiad yn arwain at weithgarwch dilynol statudol, yn ogystal â chyfarwyddwr cynorthwyol, bydd y cyfarwyddwr strategol yn safoni'r adroddiad ochr yn ochr â'r sail dystiolaeth ar ran PAEF. Mewn achosion prin, gallai'r broses safoni hon arwain at newid y lefel gweithgarwch dilynol.

Rydym hefyd yn sicrhau ansawdd sampl o arolygiadau trwy ymweliadau ar y safle. Mae ein trefniadau llawn ar gyfer sicrhau ansawdd arolygiadau ar gael ar ein gwefan www.estyn.llyw.cymru.

## Rhan 3:  Arweiniad ar weithgarwch dilynol

Bydd un categori gweithgarwch dilynol ar gyfer arolygiadau o drefniadau Trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol, sef: 'yn achosi pryder sylweddol'. Mae'r arweiniad isod yn amlinellu sut byddwn yn gweithio gydag awdurdod lleol lle mae trefniadau'n achosi pryder sylweddol ar ôl eu harolygiad. Gallai gweithgarwch dilynol gynnwys cyfarfodydd rhithwir yn hytrach na chyfarfodydd ar y safle. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio â disgresiwn, naill ai lle mae amgylchiadau neu reoliadau'n golygu bod angen hyn, neu ble mae'n effeithlon heb atal effeithiolrwydd y broses arolygu na pheri trafferth i unrhyw un sy'n gysylltiedig â hyn.

### Ymweliad monitro

Byddwn yn cynnal ymweliad monitro tua blwyddyn ar ôl yr arolygiad craidd. Byddwn yn hysbysu'r awdurdod yn ffurfiol ddeng niwrnod ymlaen llaw. Bydd maint y tîm a chynllun yr ymweliad yn cael eu teilwra i gyd-destun penodol yr awdurdod lleol a natur yr argymhellion.

Gallem ddefnyddio arolwg i gasglu safbwyntiau rhanddeiliaid perthnasol cyn ymweliad monitro. Gallem hefyd gynnal gweithgareddau rhagarweiniol gyda rhanddeiliaid perthnasol, wyneb yn wyneb neu ar-lein, fel cyfarfod â grŵp o benaethiaid.

Bydd YAR yn cael ei threfnu ar gyfer yr ymweliad, a fydd yn galluogi'r awdurdod lleol i rannu ychydig o ddogfennau allweddol a gwybodaeth ategol sy'n berthnasol. Yn ystod yr ymweliad monitro, bydd arolygwyr yn ystyried pa mor dda y mae'r awdurdod lleol wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion a faint o gynnydd a wnaed yn gyffredinol.

### Tynnu o'r categori gweithgarwch dilynol

Ar ôl unrhyw ymweliad monitro, gallai arolygwyr argymell i PAEF nad yw'r trefniadau trochi yn y Gymraeg ar gyfer awdurdod lleol, yn achosi pryder sylweddol mwyach ac y gellir ei dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad am yr ymweliad monitro. Bydd yr adroddiad yn cynnwys gwerthusiad o gynnydd, sylwadau crynodol ar gynnydd a barn gyffredinol ar gynnydd, a fydd yn cadarnhau p'un a yw'r awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd digonol i gael ei dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol ai peidio. Os nad yw arolygwyr yn fodlon â'r cynnydd, byddwn yn dychwelyd ymhen blwyddyn ar gyfer ymweliad monitro pellach.